

Tasg 1

Hiliaeth yng Nghymru

Mae'r elusen "Show Racism the Red Card" wedi cyhoeddi adroddiad sydd yn nodi fod hiliaeth ar gynnydd ymysg agweddau pobl ifanc yng Nghymru.

Cyhoeddwyd arolwg oedd yn nodi fod un o bob pedwar athro a holwyd wedi delio gyda digwyddiad hiliol yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd athrawon hefyd wedi nodi rhai o'r sylwadau hiliol yr oeddent wedi eu clywed yn y dosbarth. Dyma rai ohonynt:

Yn dilyn pleidlais Brexit, gofynnwyd i ddisgybl o dras Bangladeshi a oedd ganddo fisa, ac fe'i cyhuddwyd o fod yn aelod o ISIS.

Nododd athro arall i ddisgybl benywaidd gael ei bwlio am wisgo penwisg.

Roedd un athro wedi clywed disgybl yn dweud jôc hiliol iawn.

Dywedwyd wrth blentyn o Wlad Pwyl nad oedd croeso iddo yma ac y dylai fynd yn ôl i'w wlad ei hun.

Roedd rhagfarn yn erbyn disgyblion o dras mwslemaidd yn bryder mawr i'r athrawon a holwyd.

Mae'r elusen wedi galw ar ysgolion a'r awdurdodau yng Nghymru i wneud mwy i daclo hiliaeth mewn ysgolion.

Ydych chi'n credu fod hiliaeth yn broblem yn eich ysgol chi?

Beth ydych chi'n credu sydd angen ei wneud i daclo hiliaeth mewn ysgolion?